

CYNGOR CYMUNED LLANGOED & PENMON COMMUNITY COUNCIL.
Cofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a
gynhaliwyd Neuadd Pentre Llangoed ar
Nos FAWRTH, 8fed MEDI 2026 yn
cychwyn am 7.05yh

Minutes of the Full Council Meeting held
at the Llangoed Village Hall on TUESDAY,
8th SEPTEMBER 2026 commencing at
7.05pm.

1	Yn Bresennol oedd:	Present were:
	Cynghorwyr: Mr Richard Hughes (Cadeirydd) Ms Stephanie Dummler, Ms Dwynwen Hughes, Mrs Delyth Jones, Mr Lee Kotkowicz, Mr Gethyn Rowlands, Mr Dyfed Roger Jones & Mr J Alun Foulkes (Clerc). HEFYD yn bresennol oedd: Cynghorydd Sirol Mr Carwyn Jones Roedd Mr Jonathan Lewis hefyd yn bresennol ar gyfer eitem 6 yn y cofnodion.	Cllrs: Mr Richard Hughes (Chair), Ms Stephanie Dummler, Ms Dwynwen Hughes, Mrs Delyth Jones, Mr Lee Kotkowicz, Mr Gethyn Rowlands, Mr Dyfed Roger Jones & Mr J Alun Foulkes (Clerc). ALSO in attendance was: County Cllr Mr Carwyn Jones. Mr Jonathan Lewis was also in attendance for item 6 in the minutes.
2	Derbyn Unrhyw Ymddiheuriad: Derbyniwyd ymddiheuriad oddiwrth; Cynghorydd Mr Alan Owen. HEFYD: Cynghorwyr Sirol Mr Alun Roberts & Mr Gary Pritchard.	Accept Any Apologies: Apologies were received from: Cllr Mr Alan Owen. ALSO: County Cllrs Mr Alun Roberts & Mr Gary Pritchard.
3	Croeso	Welcome
	Croesawodd y Cadeirydd yr holl Gynghorwyr i'r cyfarfod.	The Chairman welcomed all the Councillors to the meeting.
4	Datgan Diddordeb Personol a/neu Rhagfarnol. Dim datganiad wedi ei dderbyn.	To Declare any Personal and/or Prejudicial Interest. No declaration received.
5	Cyfranogiad y Cyhoedd – Cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol gyflwyno sylwadau am unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod. Dim wedi ei dderbyn.	Public Participation - Reasonable opportunity for members of the public present to submit comments about any matter discussed at the meeting. None Received.

6	Materion Neuadd Llangoed	Llangoed Village Hall Matters
	Croesawyd Mr Jonathan Lewis i'r cyfarfod i rhannu gwybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorwyr am Materion Neuadd canlynol.	Mr Jonathan Lewis was welcomed to the meeting and both he and Cllr Delyth Jones provided provide Cllrs with a full update on the following Hall Matters.
	- Cyflwyniad gan Mr Jonathan Lewis yn ymwneud â dogfennau hanesyddol Neuadd y Pentref. Cynigiwyd ac eiliwyd (DRJ/LK) rhoi caniatâd i Bwyllgor Rheoli'r Neuadd drosglwyddo'r holl wybodaeth berthnasol i Archifau Ynys Môn – cytunwyd yn unfrydol. - Cais llwyddiannus am Grant Sinema (£6k). - Gweithio mewn partneriaeth â'r Ffermwyr Ifanc i wella'r Ardd. - Codwyd sgaffaldiau i archwilio'r 'Fascia Boards' yng nghefn y Neuadd. - Bydd archwiliad Rheoliadau Tân yn cael ei gynnal. - Mae llawer o weithgareddau wedi'u trefnu yn y Neuadd ar gyfer yr Hydref sydd i ddod. Diolchodd y Cadeirydd i Jonathan am fod yn bresennol yn y cyfarfod ac am ei waith gyda'r dogfennau hanesyddol.	- Presentation by Mr Jonathan Lewis appertaining to Historical Village Hall documents. Proposed and Seconded (DRJ/LK) to give the Hall Management Committee permission to transfer and pass all the relevant information to the Anglesey Archives – agreed unanimously. - Cinema Grant application successful (£6k). - Working in partnership with the Young Farmers to improve the Garden. - Scaffolding erected to evaluate the fascia boards at the back of the Hall. - Fire Regulation Inspection to be carried out. - Many activities booked in the Hall this coming Autumn. The Chair thanked Jonathan for attending the meeting and for his work with the historical documents.
7	Cywiro & Cadarnhau Cofnodion.	Correct & Approve Minutes.
7.1	Cyfarfod y Cyngor Llawn – 6.7.2026 – cynigiwyd ac eiliwyd (DRJ/SD) derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir, gydag addasiad bach i gofnod 9 lle dylai ddarllen 'Gwanwyn 2027' ac NID Gwanwyn 2026.	Full Council Meeting – 6.7.2026 – proposed and seconded (DRJ/SD) to accept and approve the minutes as a true record with a minor amendment to minute 9 where it should read 'Spring 2027' and NOT Spring 2026.
8	Adroddiad Sgwâr Tawelfan.	Tawelfan Square Report.
	Dim diweddariad pellach i'w adrodd.	No further update to report.
9	Materion Y Tir Comin.	Common Land Matters.
	Mae'r Clerc wedi cysylltu â Joshua Bentley i dorri'r mieri o amgylch y coed ac i glirio'r llystyfiant gormodol sy'n cuddio'r afon, ac roedd yn disgwyl am ddyfynbris.	The Clerk has contacted Joshua Bentley to cut the brambles surrounding the trees and to clear the overgrowth hiding the river and was waiting for a quotation.

10	Grwp Natur Seiriol	Seiriol Nature Group
	Roedd y Cynghorwyr eisoes yn ymwybodol am yr amserlen lawn o waith a gynlluniwyd tan fis Rhagfyr 2026.	Cllrs had been notified of the full schedule of works planned until December 2026.
11	Diweddariad ar Cais y Rhandiroedd	Allotment Application Update.
	Roedd cais cynllunio llawn, a fyddai'n cynnwys yr holl ofynion angenrheidiol i fodloni'r meini prawf, wedi'i gyflwyno i Adran Gynllunio IOACC ac roedd bellach yn aros am ddilysu.	A Full Planning application that will include all the requirements needed to meet the criteria had been submitted to the IOACC Planning Department and this was now waiting for validation.
12	Materion Y Fynwent	Cemetery Matters
	Diolchwyd i'r Cynghorydd Mr Dyfed Roger Jones am drwsio tap dŵr y fynwent oedd yn gollwng.	Cllr Mr Dyfed Roger Jones was thanked for fixing the leaking Cemetery Water Tap.
13	Difibriliwr Penmon.	Penmon Defibrillator.
	Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, arhosodd gwaith clirio'r safle – gan gynnwys gwaith cywiro ar y tir ac atgyweiriadau i'r wal a'r ffens o amgylch y diffibriliwr ym Mhenmon – heb ei gwblhau. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu dyfynbris ar frys, cadw'r aelodau'n wybodus ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.	Due to unexpected circumstances, works to clear the site including remedial groundworks and repairs to the wall & fence surrounding the defibrillator in Penmon remained outstanding. The Clerk was requested to arrange a quotation as a matter of urgency, to keep members informed and report back to the next meeting.
14	Materion Caeau Chwarae	Play Area Matters
	Roedd Adroddiad Blynnyddol yr Arolygiad Diogelwch ar gyfer y Cae Chwarae Cymunedol wedi'i dderbyn a'i ddosbarthu i'r Cynghorwyr. Cynhelir trafodaeth bellach ar ei gynnwys yn y cyfarfod nesaf.	The Annual Safety Inspection Report for the Community Playing Field had been received and circulated to Cllrs. A further discussion on its contents to take place at the next meeting.
15	Cronfa Balchder yn y Gymuned	Community Pride in Place Fund.
	Cadarnhad bod y cais am grant, sy'n cyfateb i gyfanswm o £15,290, wedi'i gymeradwyo er mwyn galluogi uwchraddio'r cawodydd yn adeilad Tyddyn Paun, ailosod y bwrdd hysbysu wrth fynedfa Tyddyn Paun, a darparu arwyddion newydd yn yr Ardal Chwarae.	Confirmation that the grant application totalling £15,290 has been approved to allow the upgrading of the showers in the Tyddyn Paun building, replace the noticeboard at the entrance to Tyddyn Paun and a new signage in the Play Area.

16	Materion Llwybrau	Footpath Matters
	Rhannwyd y gwybodaeth canlynol:	The following information was shared:
	Derbyniwyd gwybodaeth bod Menter Môn wedi cytuno i dalu am y gwaith yn ymwneud â chwynllys Japan eto eleni, a bod Mr Adi Moore yn mynd i wneud y gwaith ar ddiwedd y mis hw	Information was received that Menter Mon has agreed to pick up the tab for the Japanese Knotweed works again this year and that Mr Adi Moore will be carrying out the works at the end of this month.
17	Materion Priffyrdd	Highway Matters
	Trafodwyd y materion canlynol:	The following matters were discussed:
	• Cadarnhawyd na fydd cais Cyngor y Gymuned i ail-baentio'r gair 'SLOW' (mewn lliw coch) ar wyneb y ffordd wrth fynedfa Ardal Chwarae Tyddyn Paun ac wrth y gyffordd i'r Ysgol Gynradd yn cael ei wireddu, oherwydd costau. • Pont Lleiniog – dim diweddariad ar gael. Atgoffwyd y Cynghorwyr bod Adran Gwasanaethau Morol IOACC bellach yn rhan o'r broses gan fod angen sylw ar nifer o safleoedd eraill yn Ardal Arfordirol Ward Seiriol; mae hyn yn cryfhau unrhyw gais am grant y mae angen ei gyflwyno. • Castell Lleiniog, Ffin Ffordd Penmon – cadarnhawyd bod y gwaith i gael gwared ar yr ardal o gerrig palmant wrth ymyl y brif ffordd yn dal heb ei wneud.	• Confirmation received that the Community Council's request to have the red dye 'SLOW' repainted on the road surface at the entrance of Tyddyn Paun Play area and the junction to the Primary School will not be happening due to costs. • Pont Lleiniog – no update available. Cllrs were reminded that the IOACC Marine Services Department were now involved as several other sites on the Seiriol Ward Coastal Area needs attention, thus strengthening any grant application that needs to be submitted. • Castell Lleiniog, Penmon Road Boundary - confirmation that works to remove the cobbled area next to the main road remained outstanding.
18	Materion y Clwb Peldroed	Football Club Matters
	Cynigiwyd ac eiliwyd (GR/DJ) a chytunwyd i ganiatáu cais y Clwb Pêl-droed i geisio am grantiau i wella draeniad y cae ac i ddisodli eu hoffer torri gwair/tractur (y bydd y Clwb Pêl-droed yn eu hyswiro). Ni ystyriwyd cais y Clwb i osod llifoleuadau gan y byddai hynny'n gofyn am gais cynllunio trwy'r Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn darparu llythyr cefnogaeth i'r Clwb fel rhan o'r ceisiadau a gyflwynir.	Proposed & Seconded (GR/DJ) and agreed to allow the Football Club request to pursue grants to improve the pitch drainage and to replace their mower/tractor equipment (to be insured by the Football Club). The Club's request for the installation of floodlights was not considered as this would require planning application via the Community Council. Clerk to provide a letter of support to the Club as part of the submitted applications.

19	Materion Mynwent Penmon	Penmon Cemetery Matters
	Yn dilyn ymweliad diweddar, cododd y Cynghorydd Delyth Jones bryderon amgylcheddol difrifol ynghylch camddefnyddio biniau Mynwent Penmon gan ymwelwyr â faniau gwersylla, a'r ffaith bod y biniau'n gorlifo â sbwriel a bagiau baw cŵn. Awgrymwyd y dylai'r Eglwys gwyno wrth IOACC a gofyn am finiau ychwanegol. Yn dilyn trafodaeth bellach, os ystyrir Penmon Point yn safle gwersylla dros nos, dylai'r perchennog ddarparu cyfleusterau mwy priodol.	Following a recent visit Cllr Delyth Jones raised serious environmental concerns that the Penmon Cemetery bins were being abused by visitors with Campervans and that the bins were overflowing with rubbish and dog bags. It was suggested that the Church complains to the IOACC and request additional bins. Following further discussion, if Penmon Point is considered to be an overnight camping site, more appropriate facilities should be available by its owner.
20	Coeden Nadolig	Christmas Tree
	Cytunwyd y dylai'r Cynghorydd Gethyn Rowlands ddarparu a gosod bloc concrit yn y ddaear wrth baratoi ar gyfer Coeden Nadolig eleni. Nid oedd dyddiad penodol wedi'i osod ar gyfer y digwyddiad, a chytunwyd i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf	Agreed that Cllr Gethyn Rowlands should supply and fix a concrete block into the ground in preparation for this year's Christmas Tree. There was no fixed date for the event and agreed that this was deferred to the next meeting.
21	Adroddiad y Cynghorydd Sirol	County Councillor's Report
	Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Sirol Mr Carwyn Jones ar y materion canlynol:	County Cllr Mr Carwyn Jones gave a verbal report on the following matters:
	- Noddi Pêl y Gêm ar gyfer y Clwb Pêl-droed. - Ail-sefydlu Grŵp sy'n Gyfeillgar i Dementia yn Llangoed ar 29 Hydref 2026. - Diweddariad ar Bont Grog Porthaethwy – gwasanaethau'n dychwelyd i normal ym mis Mawrth 2027 a'r cynlluniau hirdymor ar gyfer trydydd croesfan dros y Fenai bellach yn cael eu hystyried eto. - Cau ffordd ar y gweill rhwng Biwmares a Llanfaes oherwydd digwyddiad Runfest. - Ymgynghoriad swyddogol ynghylch y system unffordd barhaol ar hyd Rating Row ym Miwmares.	- Match Ball Sponsorship for the Football Club. - Dementia Friendly Group re-established in Llangoed on the 29th October 2026. - Menai Bridge Suspension Bridge Update – services back to normal in March 2027 and the long-term plans for a 3rd crossing across the Straits now back on the table. - Forthcoming road closure between Beaumaris and Llanfaes due to Runfest event. - Official consultation regarding the permanent one-way system along Rating Row in Beaumaris. The Chair thanked Cllr Jones for his report.

	Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Jones am ei adroddiad.	
22	Materion Cyllid	Financial Matters
22.1	Rhestr Biliau l'w Dalu.	List of Bills for Payment.
	Cynnig & Eilio (GR/DJ) i wneud y taliadau canlynol am Mis Medi 2026 ac fe basiwyd yn unfrydol.	Proposed & Seconded (GR/DJ) to make the following payments for September 2026. Approved unanimously.
	Cyflog y Clerc – Medi 2026 £483.00 Pozitive Energy – Trydan Tyddyn Paun £161.04 Banc Lloyds – Ffioedd £8.50 Mr Leighton Jones (Torri Gwair y Cae Chwarae – Gorffennaf / Awst 2026 £400.00 Mr Tristan Oldham (Torri Gwair Y Rhyd Gorffennaf & Awst 2026 £600.00 Cyngor Gwynedd – Ffi Archwiliad Mewnol 2025/2026 £504.00 Archwiliad Cymru – Ffi Archwiliad Allanol – 2024/2025 £200.00 Zurich Insurance – Yswiriant Blynyddol £1,679.49 Cyngor Ynys Mon – Ffi Cais Cynllunio - Rhandiroedd £333.50	Clerks Wages – September 2026 £483.00 Pozitive Energy – Tyddyn Paun Electriciy £161.04 Lloyds Bank – Bank Charges £8.50 Mr Leighton Jones (Play Area Grass Cutting July & August 2026) £400.00 Mr Tristan Oldham (Y Rhyd Grass Cutting for July & August 2026) £600.00 Gwynedd Council – Internal Audit Fee 2025/2026 £504.00 Audit Wales – External Audit Fee – 2024/2025 £200.00 Zurich Insurance – Annual Insurance £1,679.49 Ynys Mon County Council – Allotment Planning Application Fee £333.50
22.2	Derbyniadau:	Income:
	Priseb – Ail Rhandaliad £10,000.00 Ffioedd Claddu £250.00 Scottish Power – Wayleave £179.78 Llog Banc £6.38	Precept – 2nd Instalment £10,000.00 Burial Fees £250.00 Scottish Power – Wayleave £179.78 Bank Interest £6.38
22.3	CYSONI BANC: 31.8.2026	BANK RECONCILIATION: 31.8.2026
	Cyfrif Cyffredol: £16,459.40 Cyfrif Cadw: £7,517.38	Current Account: £16,459.40 Reserve Account: £7,517.38

22.4	Mandad y Banc	Bank Mandate
	Cytunodd y Clerc y byddai'n datrys y mater erbyn y cyfarfod nesaf	Clerk agreed that he will resolve this issue by the next meeting
23	Ceisiadau Cynllunio Newydd Cais am estyniad un llawr yn Flagstaff Villa, Penmon – HHP/2026/109 – dim gwrthwynebiad, ond nodir nad oedd unrhyw ddogfennau ategol ac fod yr annedd wedi'i lleoli mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.	New Planning Applications: Application for a single storey extension at Flagstaff Villa, Penmon – HHP/2026/109 – no objection but to note that there was no supporting documentation and the dwelling is located in an Area of Outstanding Natural Beauty.
24	Penderfyniadau Cynllunio	Planning Decisions
24.1	Fargen Wen, Llangoed – FPL/2026/109 - CYMERADWYWYD	Fargen Wen, Llangoed – FPL/2026/109 - APPROVED
24.2	4 Tyddyn Waen Terrace, Glanrafon – HHP/2026/45 – CYMERADWYWYD.	4 Tyddyn Waen Terrace, Glanrafon – HHP/2026/45 – APPROVED.
24.3	Bethania, Glanrafon – HHP/2026/64 – CYMERADWYWYD.	Bethania, Glanrafon – HHP/2026/64 – APPROVED.
25	Gohebiaeth Lleol	Local Correspondence
25.1	Gwasanaeth Bysiau yn Llangoed a Biwmares – cwyn wedi'i dwyn i sylw Cynghorwyr Cymuned a Sir ynghylch dirywiad yn y gwasanaethau bysiau, sy'n effeithio ar bobl o bob oed sy'n dibynnu ar y gwasanaeth i deithio i'r gwaith ac i apwyntiadau yn yr ysbyty a gyda'r meddyg teulu, ynghyd â chwyn nad oes lloches fysiau go iawn ym Miwmares – mae'r gwyn wedi'i chyfeirio at y swyddog perthnasol yn IOACC ac at Arriva.	Bus Service in Llangoed & Beaumaris – complaint brought to the attention of Community & County Councillors with reports of deteriorating bus services that is affecting people of all ages who rely on the service to travel to work, Hospital & GP appointments and that there is no actual bus shelter in Beaumaris – complaint escalated to the relevant IOACC Officer and Arriva.
25.2	Cynllun Atal Llifogydd, Bae Fryars – ebost wedi ei anfon gan Cynghorydd Sirol Mr Carwyn Jones i'r Deilydd Portfolio & Pennaeth Adran Priffyrdd yn dwyn sylw fod Bae Fryars wedi cau y gyfan gwbl nifer o weithiau oherwydd dros y blynyddoedd llifogydd trwm ac nifer o ymgyrchoedd i drio cael pres atal llifogydd i warchod y ffordd rhwng Beaumaris a Llangoed. Mae Prif Weinidog Cymru, Rhun ap Iorwerth wedi ymuno yn yr ymgyrch ynghyd a Chyngor Cymuned Llangoed rhai blynyddoedd yn ôl. yr ateb blaenorol	Fryars Bay Flood Prevention Scheme – an email sent by County Councillor Mr Carwyn Jones to the Portfolio Holder and Head of the Highways Department highlighting that Fryars Bay has been completely closed on numerous occasions over the years due to heavy flooding, and notes the various campaigns to secure funding for flood prevention measures to protect the road between Beaumaris and Llangoed. Rhun ap Iorwerth MS joined the campaign some years ago, alongside Llangoed Community Council. The previous response from the Government was that,

	cafwyd gan y Llywodraeth oedd, gan nad oedd yno eiddo preswyl na busnesi yn cael ei effeithio yn uniongyrchol nid oedd pres ar gael i atal llifogydd. Er fod cau y ffordd yma yn effeithio a chau mynediad i drigolion Llangoed, Penmon a Glanrafon, hefyd methu cael mynediad at yr Ysgol a dau gartref henoed, oes posib i'r adran Priffyrdd holi eto a fydd newid yn sefyllfa i allu cefnogi gwaith atal llifogydd ym Mhae Fryars?	as no residential properties or businesses were directly affected, no funding was available for flood prevention. Given that closing this road cuts off access for residents of Llangoed, Penmon, and Glanrafon, and prevents access to the school and two care homes, is it possible for the Highways Department to inquire again whether the situation has changed sufficiently to support flood prevention work at Fryars Bay?
25.3	Adroddiad Digwyddiad – Tros yr Afon (Lleiniog) – cadarnhad bod gweithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymdrin â chwyn ynghylch rhwystr, a bod unrhyw falurion wedi'u clirio a'u symud.	Incident Report – Tros yr Afon (Lleiniog) – confirmation that a Natural Resources Wales operator had addressed a blockage complaint and any debris has been cleared and removed.
25.4	Maes Parcio Lleiniog - adroddiad wedi ei hanfon ynghylch barbeciw/tân yn cael ei gynnu ar dir y Cyngor Sir ym Mhaes Parcio ac Ardal Bicnic Lleiniog – ymateb wedi ei dderbyn nad yw Iechyd yr Amgylchedd yn gallu ymchwilio i'r mater fel cwyn am niwsans statudol gan nad yw'r adroddiad wedi'i wneud gan unigolyn sy'n byw yn y cyffiniau ac sy'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan fwg neu allyriadau eraill o'r goelcerth/barbeciw. Fodd bynnag, maent wedi anfon y wybodaeth ymlaen at y gwasanaethau perthnasol er mwyn iddynt ei hystyried, gan gynnwys: Gwasanaeth Priffyrdd Cyngor Tref Biwmares Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Mae'r sefydliadau yma mewn gwell sefyllfa i ystyried unrhyw bryderon sy'n ymwneud â rheolaeth tir, diogelwch y cyhoedd, risg tân, neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â gweithgarwch yn y lleoliad yma.	Lleiniog Car Park – a report was submitted regarding a barbecue/fire being lit on County Council land at the Lleiniog Car Park and Picnic Area; a response was received stating that Environmental Health cannot investigate the matter as a statutory nuisance complaint because the report was not made by an individual living in the vicinity who is directly affected by smoke or other emissions from the bonfire/barbecue. However, they have forwarded the information to the relevant services for their consideration, including: Highways Service Beaumaris Town Council North Wales Fire and Rescue Service These organisations are better placed to consider any concerns regarding land management, public safety, fire risk, or other issues associated with activity at this location.
25.5	Cofnodion Fforwm Cyngorau Tref & Chymuned – 3ydd Mehefin 2026 – cyfarfod nesaf – 30ain Medi 2026.	Town & Community Councils Forum Minutes – 3rd June 2026 – next meeting – 30th September 2026.

25.6	Dyddiadau Cyrsiau Hyfforddiant Un Llais Cymru – Awst > Rhagfyr 2026.	One Voice Wales Training Course Dates – August > December 2026.
25.7	Cofnodion Un Llais Cymru (Cangen Mon) – 28ain Gorffennaf 2026 – cyfarfod nesaf – 14eg Hydref 2026	One Voice Wales Training Course Dates – August > December 2026.
26	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 5.10.2026	Date of Next Meeting: 5.10.2026.
	Gan nad oedd unrhyw fusness arall i'w drafod, diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a Cyngorwyr y Cyngor am eu presenoldeb ac fe cauodd y cyfarfod am 8.55yh.	With no further business to be conducted, the Chair thanked the Clerk and the Cllrs for their attendance and declared the meeting closed at 8.55pm.

Arwyddo/ Sign.....Cadeirydd / Chair.....Dyddiad / Date.